Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Dinas a Sir Abertawe (Adroddiad Crynodol Interim)

2014 - 2017

DRAFT

Cynnwys

1. Cyflwyniad **Tudalen 3**

- Yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Tudalen 4
- Camau'r Asesiad ac ymgynghori Tudalen 4

2. A oes digon o ofal plant yn Abertawe? Tudalen 6

3. Canfyddiadau Allweddol Tudalen 7

- Y galw am ofal plant Tudalen 7
- Y cyflenwad o ofal plant Tudalen 10

4. Dadansoddiad o'r Bylchau Tudalen 13

- Bylchau Daearyddol a Math Tudalen 13
- Bylchau incwm Tudalen 14
- Bylchau anghenion penodol Tudalen 14
- Bylchau amser Tudalen 15
- Bylchau oedran Tudalen 15

5. Ymgynghori ar y canfyddiadau cychwynnol Tudalen 15

DRAFT

Crynodeb o'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Deddf Gofal Plant (2006)[1] yn ehangu ac yn egluro rôl hanfodol Awdurdodau Lleol wrth ddarparu gofal plant yn lleol. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â darparu'r canlynol:

- Gofal plant digonol, cynaliadwy a hyblyg sy'n ymateb i anghenion rhieni; a
- Gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni, darpar rieni a'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant neu ofal am blant, yng nghyswllt gofal plant.

1.2 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant bob tair blynedd. Mae'r Asesiad hwn yn gam angenrheidiol tuag at sicrhau darpariaeth ddigonol o ofal plant.

1.3 Mae Adran 22 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n *ymarferol bosibl*, gofal plant sy'n ddigonol ar gyfer gofynion rhieni yn eu hardal y mae angen gofal plant arnynt er mwyn ymgymryd â gwaith, aros mewn gwaith, neu ddilyn addysg neu hyfforddiant.

1.4 Fel y nodwyd yn y Canllawiau i Awdurdodau Lleol (2008), nid y bwriad yw gosod rhwymedigaeth ar Awdurdodau Lleol i ddiwallu anghenion unigol pob teulu sy'n gweithio, ond yn hytrach sicrhau bod yr Awdurdod Lleol, ar lefel gymunedol, yn cymryd camau strategol gyda'i bartneriaid i ymdrin â'r bylchau ym maes gofal plant. Bydd disgwyl i Awdurdodau Lleol gefnogi datblygiad gofal plant lle ceir galw digonol gan rieni fel bod modd i leoliad gofal plant neu warchodwr plant weithredu a bod yn gynaliadwy.

1.5 Ar ben hynny, effaith y geiriad *"rhesymol ymarferol"* yn y Ddeddf Gofal Plant yw caniatáu i Awdurdodau Lleol roi ystyriaeth i'w hadnoddau a'u galluoedd wrth wneud penderfyniadau ynghylch pryd y dylid ymyrryd er mwyn ymdrin â bylchau yn y farchnad gofal plant. Bydd yn rhaid i Awdurdodau Lleol fodloni anghenion i'r graddau y gallant oddi mewn i'r cyfyngiadau hynny, ond mae'n caniatáu ar gyfer peth hyblygrwydd - bydd yr hyn a allai fod yn ymarferol yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr Awdurdod Lleol dan sylw.

1.6 Mae gan yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, er ei fod yn statudol ofynnol, rôl arwyddocaol i'w chwarae o ran lleihau tlodi plant, a hynny trwy alluogi rhieni i gael mynediad i gyfleoedd gwaith a hyfforddiant, a hefyd trwy wella llesiant a datblygiad plant. Mae Abertawe wedi datblygu Strategaeth Tlodi Teuluol, sy'n cyflwyno'r camau allweddol y mae'r Awdurdod a'i bartneriaid yn eu cymryd i leihau tlodi, yn unol â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 Llywodraeth Cymru. Ar ben hynny, mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc (2011-2014)[2] yn ceisio mynd i'r afael â thlodi teuluoedd. Nod Blaenoriaeth

[1] Deddf Gofal Plant (2006) *(c.**21**)*. Hawlfraint y Goron 2006, Llyfrfa Ei Mawrhydi.

[2] Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc Abertawe: Cynllun Strategol Abertawe ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, 2011-

Un yw sicrhau bod “plant a phobl ifanc yn gallu cyrchu gofal plant, ac yn cael cefnogaeth i ddatblygu”. Mae'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hefyd yn chwarae rôl bwysig o ran hysbysu ynghylch datblygiadau sy'n gysylltiedig â gofal plant yn y rhain ac mewn dogfennau strategol eraill (a chaiff ei hysbysu ganddynt yn ogystal).

Yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

1.7 Mae'r Asesiad yn archwilio'r farchnad gofal plant yn lleol. Nod yr asesiad yw cynhyrchu darlun cyffredinol o ddefnydd rhieni/gofalwyr o ofal plant yn yr ardal leol, a'u galw amdano. Trwy edrych ar yr hyn y mae ei angen ar rieni / ofalwyr a beth sydd ar gael ar hyn o bryd, nod yr Awdurdod Lleol yw canfod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gofal plant.

1.8 Yn benodol, y ddyletswydd sydd ar Awdurdodau Lleol yw sicrhau gofal plant digonol i blant o'u geni tan y mis Medi wedi iddynt gael eu pen-blwydd yn 14 oed, neu hyd at y mis Medi wedi iddynt gael eu pen-blwydd yn 18 os bydd ganddynt anabledd (Deddf Gofal Plant 2006: Canllawiau i Awdurdodau Lleol, 2008).

1.9 Hysbyswyd y broses o gynhyrchu'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn gan ganllawiau ar gyflwyno'r cyfryw Asesiadau a ddarparwyd gan Becyn Offer Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010[3] a Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiad Awdurdod Lleol) (Cymru) 2013.

Camau Asesu ac ymgynghori

1.10 Mae'r adroddiad crynodol interim hwn yn cynnwys gwybodaeth gryno am yr ymgynghoriad a'r gweithdrefnau coladu data a ddefnyddiwyd. Mae'n cynnig canfyddiadau rhagarweiniol. Mae'n manylu ar rai o'r negeseuon allweddol sy'n dod i'r amlwg, ac yn crynhoi'r bylchau canfyddedig yn y ddarpariaeth gofal plant.

1.11 Yn unol â'r Rheoliadau Statudol, mae Dinas a Sir Abertawe wedi archwilio'r canlynol :

- Nifer y llefydd sy’n ofynnol;
- Nifer y llefydd sydd ar gael;
- Nifer y llefydd sy'n ofynnol y gellir defnyddio elfen gofal plant credydau treth gweithio neu elfen costau gofal plant credyd cynhwysol ar eu cyfer;
- Nifer y llefydd sydd ar gael y byddai rhieni'n gallu defnyddio elfen gofal plant credydau treth gweithio neu elfen costau gofal plant credyd cynhwysol ar eu cyfer;
- Ar ba adegau mae gofal plant yn ofynnol;
- Ar ba adegau mae gofal plant ar gael;
- Yr amrywiaeth o ran hyd y sesiynau a gynigir gan ddarparwyr gofal plant;

2014: http://www.nfer.ac.uk/emie-in-Wales/documents/Plans/CYPP2011_SWANEnglish.pdf

[3] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010). *Pecyn Offer ar gyfer Cynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.* Cynulliad Cymru, Caerdydd ac Ymgynghoriaeth Cordis Bright.

- Nifer y llefydd sy'n ofynnol sy'n addas ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu y mae angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd;
- Nifer y llefydd sydd ar gael sy'n addas ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig neu y mae angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd;
- Nifer y llefydd gofal plant Cymraeg a dwyieithog sy'n ofynnol;
- Nifer y llefydd gofal plant Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael;
- Nifer y llefydd gwag a'r rhai nad ydynt yn cael eu defnyddio; a'r
- Amrywiaeth o daliadau am y gofal plant.

1.12 Wrth ymgymryd â'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, bu Dinas a Sir Abertawe yn ymgynghori'n eang. Defnyddiwyd dyluniad dull cymysg (meintiol ac ansoddol). Defnyddiwyd ystod o ddulliau, gan gynnwys arolygon mynediad agored strwythuredig, grwpiau ffocws, cyfweliadau unigol a thrafodaeth wyneb yn wyneb i gasglu gwybodaeth, profiadau personol a chanfyddiadau.

1.13 Ymhlith yr ymgyngoriadau, er enghraifft, roedd y canlynol:

- Plant rhwng 2 ac 11 oed sy'n mynychu 4 lleoliad gwahanol, yn cynnwys Clwb ar ôl Ysgol, Meithrinfa Ddydd, Grŵp Rhieni a Phlant Bach a grŵp Dechrau'n Deg;
- 521 o rieni/ofalwyr, yn cynrychioli 89% o'r holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) yn Abertawe;
- 131 (53%) o ddarparwyr gofal plant;
- 36 o gyflogwyr, yn cynrychioli mwy na 32,000 o weithwyr;
- Y gweithlu gofal plant (n = 389)
- 3 awdurdod lleol cymdogol;
- Yr holl ysgolion lleol
- Colegau Addysg Bellach
- Grwpiau ffocws (n = 12) gyda'r gymuned BME, y gymuned teithwyr, cyfranogwyr cyfrwng Cymraeg a thadau, ymhlith eraill.
- Fforwm Fusnes Abertawe
- 11 o Feithrinfeydd Dydd

1.14 Ar ben hyn, gwahoddwyd Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, y Bwrdd Diogelu Plant Lleol a Chanolfan Byd Gwaith i gyflwyno sylwadau ar ofal plant yn Abertawe.

1.15 Roedd yr asesiad cyfredol yn rhoi sylw i wybodaeth am broffil sosio-economaidd a demograffig Abertawe, y ffactorau economaidd sy'n effeithio ar y galw, y gallu i dalu, y cyflenwad o ofal plant, gan gynnwys nodweddion a strwythur y farchnad, ac ymgynghori â darparwyr gofal plant, rhieni/gofalwyr, cyflogwyr lleol a phlant. Ymgynghorwyd hefyd ag ystod o ddarparwyr data allanol, er enghraifft, StasWales, Uned Ddata Cymru, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Bu'r Asesiad hefyd yn tynnu ar waith arall diweddar gan Ddinas a Sir Abertawe, megis yr Asesiad o Anghenion Plant a Phobl Ifanc (2011-2014) (2010).

1.16 Ar hyd yr Asesiad rydym wedi archwilio a chynrychioli canfyddiadau daearyddol gan

ddefnyddio wardiau etholiadol ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) lle bo modd. Rydym hefyd wedi rhoi ystyriaeth i'r gwahaniaethau o ran canfyddiad yn ôl oedran y plant dan sylw.

2. A oes digon o ofal plant yn Abertawe?

2.1 Mae Abertawe yn Awdurdod Lleol llawn cyferbyniad. Mae'n cynnwys ardaloedd gwledig helaeth, ochr yn ochr â chanolfan drefol sylweddol. Mae hefyd yn cynnwys ardaloedd cymharol gefnog a rhai lle ceir amddifadedd sylweddol. Mae rhyw 176,971 o unigolion rhwng 16 a 74 oed yn ardal Abertawe. Mae tua 66.9% o'r gweithlu cyflogedig o 102,793 yn Abertawe yn gweithio'n amser llawn neu oriau hwy. Abertawe yw'r ail ddinas fwyaf yng Nghymru, hi yw canolfan ranbarthol De-orllewin Cymru, ac mae hi wedi elwa o adfywio sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er ei bod hefyd yn cynnwys ardaloedd lle ceir cyfraddau uchel o ddiweithdra hirdymor ac aelwydydd economaidd segur. Mae plant a phobl ifanc 0-15 oed yn cynrychioli 17.3% o'r boblogaeth o 239,023 a amcangyfrifir yn Abertawe. Cyflwynir mwy o fanylion am amgylchiadau sosio-economaidd a demograffig y plant a'r bobl ifanc hyn yn Asesiad Dinas a Sir Abertawe o anghenion Plant a Phobl Ifanc 2011-2014 (2010)[4].

2.2 Mae gan Ddinas a Sir Abertawe ddewis eang a helaeth o ddarpariaeth gofal plant sy'n cyfateb i anghenion daearyddol, economaidd a chyflogaeth yr Awdurdod Lleol. Ar hyn o bryd mae gan Ddinas a Sir Abertawe 249 o ddarparwyr gofal plant ar draws ystod eang o leoliadau, yn cynnwys Gwarchodwyr Plant, Crèches, Gofal Dydd Llawn, Gofal y tu allan i'r Ysgol a Gofal sesiynol, gyda'r ddarpariaeth gofal plant cyn-ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei chefnogi trwy grwpiau sy'n gysylltiedig â'r Mudiad Meithrin ac addysg feithrin Gymraeg ar gyfer rhieni y mae angen Gwasanaeth Addysg cyfrwng Cymraeg arnynt. Ar ben hynny, mae Abertawe'n cynnig dull integredig gyda gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau/anghenion ychwanegol, gyda chynlluniau a grewyd i sicrhau bod plant cyn-ysgol sydd wedi cael diagnosis o anabledd, neu sydd ag anabledd yn dod i'r amlwg, yn cael eu cyfeirio i'r gwasanaeth mwyaf priodol, a bod modd i'r darparwyr gofal plant a ddewisir roi lle i blentyn/berson ifanc anabl heb gost ychwanegol iddynt eu hunain nac i'r rhiant.

2.3 Y mater sy'n destun pryder mwyaf i ddefnyddwyr gwasanaethau gofal plant yw fforddiadwyedd, gyda hyblygrwydd yn ail agos, yn enwedig y tu allan i dymhorau'r ysgol. Ar y cyd, teimlai rhieni a chyflogwyr fod gofal plant digonol yn eu hardaloedd lleol, ond gall fod angen rhoi sylw pellach i ambell ardal, ym meysydd fforddiadwyedd, darpariaeth Gymraeg, darpariaeth i blant ag anabledd, darpariaeth yn ystod y gwyliau a darpariaeth i blant 11+, er enghraifft.

[4] Asesiad Dinas a Sir Abertawe o Anghenion Plant a Phobl Ifanc, 2011-2014: http://www.cypswansea.co.uk/media/pdf/f/8/Draft_CYP_Needs_Assessment___5_.pdf

DRAFT

3. Canfyddiadau Allweddol

Y galw am ofal plant

3.1 Effeithir ar y galw am ofal plant ffurfiol gan nifer o ffactorau, yn cynnwys faint o ofal anffurfiol sydd ar gael i rieni, rhagolygon cyflogaeth, incwm y teulu, strwythur y teulu, nifer y plant, a'r cyflenwad o ofal plant priodol sy'n berthnasol i oedran y plant a/neu eu hanghenion penodol.

❖ **Gofal Anffurfiol**

3.2 Mae ein harolwg rhieni/gofalwyr yn awgrymu, fel y gwnaeth yr Asesiad diwethaf, fod neiniau a theidiau, aelodau eraill o'r teulu a ffrindiau yn cyflawni rôl hanfodol o ran darparu gofal plant anffurfiol. O'r 410 o rieni/ofalwyr a ymatebodd i 'arolwg ffurflen hwy' i rieni/ofalwyr, adroddodd 64% eu bod hefyd yn dibynnu (h.y., yn ogystal â defnyddio gofal ffurfiol), neu'n dibynnu'n llwyr ar aelodau eraill o'r teulu a ffrindiau i ddarparu gofal plant. Roedd y gofalwyr hyn yn cynnwys neiniau a theidiau, hen neiniau a theidiau, ffrindiau, gwarchodwyr plant, tadau, rhieni ffrindiau ysgol, gwŷr, chwiorydd, a chwaer yng nghyfraith.

❖ **Gofal Ffurfiol**

3.3 Ymhlith y canfyddiadau allweddol ynghylch y galw am ofal plant ffurfiol mae'r canlynol:

- Adroddodd rhyw 29% (n = 119) o'n hymatebwyr **nad oeddent** yn defnyddio gofal plant ffurfiol. O'r 119 hynny, y **rheswm** a nodwyd gan fwyafrif y rhieni/gofalwyr oedd bod gofal plant yn rhy ddrud.

- O'r ymatebwyr hyn, dywedodd rhyw 8% (n = 132) yr hoffent gael darpariaeth Saesneg a dywedodd 6% (n = 94) y byddai'n well ganddynt ddarpariaeth Gymraeg / ddwyieithog.

- Roedd 70% o'n 410 o ymatebwyr **yn defnyddio** gofal plant ffurfiol. O'r rheiny, dywedodd 84% mai eu prif **reswm** dros ddefnyddio gofal plant ffurfiol oedd er mwyn mynd i'r gwaith, tra bod 15% yn dweud mai'r rheswm oedd y manteision cymdeithasol a/neu ddysgu i'w plant, a dywedodd 13% mai er mwyn medru astudio/cael hyfforddiant.

Darpariaeth iaith yn ystod y tymor a'r gwyliau:

- Dywedodd rhyw 82% (n = 238) o'r ymatebwyr oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol fod gofal plant eu plentyn yn cael ei ddarparu yn eu dewis iaith **yn ystod y tymor**. Cafwyd darlun tebyg ar gyfer gofal **yn ystod y gwyliau** (70%).

- Roedd ein grŵp ffocws gyda rhieni/gofalwyr Cymraeg eu hiaith yn awgrymu nad oeddent yn ymwybodol o lawer o feithrinfeydd cyfrwng Cymraeg, ac nid oeddent

DRAFT

yn mynd ymlaen i ddweud y byddent yn defnyddio'r meithrinfeydd hyn. Dywedodd 44% o'r ymatebwyr i'n harolwg rhieni/gofalwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r gosodiad 'Mae digon o ofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg yn fy ardal'. Roedd darlun tebyg i'w weld yng nghyswllt gofal yn ystod y gwyliau.

Bodlonrwydd o ran gofal plant yn ystod y tymor a'r gwyliau:

- Roedd mwyafrif y rhieni/gofalwyr yn dweud bod eu darpariaeth gofal plant ffurfiol yn diwallu eu hanghenion naill ai'n llwyr neu'n rhannol **yn ystod y tymor** ac **yn ystod y gwyliau.** Yn achos y ganran fechan iawn o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r gosodiad hwn, roedd y rhesymau'n cynnwys fforddiadwyedd, ac awgrymwyd noddi ffïoedd meithrinfa, amserau cychwyn a gorffen anaddas y Clwb Brecwast a'r Gofal ar ôl Ysgol, dim digon o ofal ar gyfer plant 11+ oed, a dewis annigonol yn ystod y gwyliau.

- Dywedodd 81% o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r gosodiad 'Rwy'n fodlon ar y gofal plant ffurfiol rwy'n ei ddefnyddio', ac roedd 75% yn cytuno bod eu plant yn hoffi eu darpariaeth gyfredol. Roedd mwyafrif y rhieni/gofalwyr (59%) yn cytuno bod ansawdd uchel i'r gofal plant yn eu hardal, ac roedd 43% yn cytuno bod dewis da o ofal ffurfiol yn eu hardal **yn ystod y tymor**. Gwelwyd patrwm canlyniadau tebyg ar gyfer gofal **yn ystod y gwyliau** .

Awgrymiadau ar gyfer gwelliant yn ystod y tymor a'r gwyliau, a ffactorau pwysig wrth ddewis gofal plant:

Yn ystod y tymor:

- Gwneud gofal plant yn fwy fforddiadwy (41%);
- Gwella hyblygrwydd (32%), e.e., darpariaeth ar gyfer oriau anghyffredin, neu argaeledd gofal plant ar wahanol adegau; a
- Gofal Cofleidiol i'r ysgol (13%)

- Gwelwyd yr un patrwm o awgrymiadau ar gyfer gwelliant (ac eithrio'r Gofal Cofleidiol i'r ysgol) **yn ystod y gwyliau**. Pan ofynnwyd iddynt ymhelaethu ar unrhyw awgrymiadau pellach, dywedodd rhieni / gofalwyr yr hoffent weld yr ysgolion yn cynnig clybiau gwyliau, ac yr hoffent gael clybiau gwyliau'n nes adref.

Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau yn ystod y tymor a'r gwyliau:

- O ran darpariaeth i blant a phobl ifanc ag anableddau, yn ystod ein grŵp ffocws, mynegodd rhieni a gofalwyr bryder ynghylch cyllid. Mae pryder ynghylch costau uwch gofal plant i blant anabl os bydd angen gofal un i un arnynt. Mae'n debygol na fydd costau gofal plant yn fforddiadwy, hyd yn oed os ceir hyd i leoliad addas gyda staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.
- Mae'r rhieni y buom ni'n siarad â nhw'n teimlo bod anghysondeb rhwng yr wybodaeth mae darparwyr yn ei rhoi o ran gallu derbyn plant ag anableddau a derbyn eu plant mewn gwirionedd.

DRAFT

Darpariaeth ar gyfer grwpiau BME:

- Awgrymodd grwpiau ffocws gyda'r cymunedau BME mai'r prif faterion oedd cost a fforddiadwyedd, ynghyd â methu â chyrchu cymorth ariannol yn sgîl statws fisa. Y prif fater yw fforddiadwyedd, yn enwedig yn achos y rhai sydd â nifer o blant. Nid oedd gan y rhai oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol bryderon ynghylch cynhwysiad na rhwystrau ieithyddol pan oedd eu plant yn derbyn gofal plant, ac roeddent yn fodlon ar y gofal yr oeddent wedi'i ddefnyddio.

Grŵp ffocws Tadau:

- Datgelodd grŵp ffocws gyda thadau mai'r prif reswm dros ddefnyddio gofal plant ffurfiol oedd er mwyn iddynt hwy a'u partner aros / gychwyn mewn gwaith. Roedd yr holl dadau'n fodlon ar y gofal a ddewiswyd.

Grŵp ffocws ardal Dechrau'n Deg:

- Y prif faterion oedd i'w gweld yn codi o'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd yn yr ardal Dechrau'n Deg oedd ymddiriedaeth, hygyrchedd / cludiant i leoliadau, cost a hyblygrwydd. Roedd yr holl rieni/ofalwyr yn cytuno bod y rhai oedd â mwy nag un plentyn o wahanol oed yn cael trafferth cyrraedd gwahanol leoliadau, a bod hynny felly'n effeithio ar eu gallu i ymgymryd â gwaith a/neu hyfforddiant. Dywedodd pob un ohonynt eu bod yn fodlon iawn ar y trefniadau yn eu hardal.

Materion yn ymwneud â chyflogaeth ac ymgynghori â chyflogwyr:

- Dywedodd 30% o rieni/ofalwyr fod materion cysylltiedig â gofal plant wedi achosi problemau yn y gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac adroddodd 31% fod materion gofal plant wedi eu hatal nhw neu eu partner rhag gweithio rhagor o oriau.

- Datgelodd yr ymarferiad ymgynghori â chyflogwyr fod mwyafrif y cyflogwyr (75%) yn teimlo, o'u persbectif fel cyflogwr, bod digon o ofal plant lleol, ac adroddodd 43% nad oedd gofal plant yn cael effaith o gwbl ar allu eu sefydliad i recriwtio a chadw gweithwyr.

Plant a Phobl Ifanc

- Ymgynghorwyd â phlant 2-11 oed oedd yn mynychu 4 lleoliad gwahanol ynghylch yr hyn roedden nhw'n gweld fel cryfderau a chyfyngiadau yn y gofal plant roedden nhw'n ei ddefnyddio. Roedd y lleoliadau'n cynnwys Clwb ar ôl Ysgol, Meithrinfa Ddydd, Grŵp Rhieni a Phlant Bach a grŵp Dechrau'n Deg. Roedd tua 96% o'r plant y buom ni'n ymgynghori â nhw yn fodlon ar eu darpariaeth gofal plant, ac nid oeddent yn codi unrhyw faterion sylweddol oedd yn destun pryder.

DRAFT

Y Cyflenwad o ofal plant

3.4 Mae'r adroddiad crynodol hwn yn cynnwys gwybodaeth allweddol am nifer y llefydd cofrestredig, lefelau llenwi, oedrannau'r plant, ac yn y blaen.

- Bu nifer y llefydd gofal plant mewn Gofal Dydd Llawn yn cynyddu'n raddol rhwng 2005 a 2012 (n = 1657 i 1772), ond gwelwyd gostyngiad o 72 o lefydd yn 2013. Mae'r llefydd gofal plant mewn Crèches wedi parhau'n gyson ers 2010 (n = 23), tra bod nifer y llefydd gofal plant a gynigir gan Warchodwyr Plant (n = 703) a Gofal ar ôl Ysgol (n = 805) yn uwch nawr nag y bu ers 2007. Gofal yn ystod y Gwyliau yw'r nifer isaf o lefydd gofal plant cofrestredig isaf o hyd (n = 537).

Ffigur 1. Ciplun o'r Llefydd Gofal Plant Cofrestredig ym mis Tachwedd 2013.



- Ers Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2011, mae'r boblogaeth blant wedi codi i 38,685, ac mae nifer y llefydd gofal plant wedi codi o 4001 i 4541.

- Dangosodd dosbarthiad daearyddol y darparwyr gofal plant ledled Abertawe mai yn ward Llansamlet y ceir y nifer uchaf o ddarparwyr gofal plant cofrestredig (n = 23), gyda Threforys (n=18) a Sgeti (n=16) yn dilyn. Er bod rhywfaint o newid yn nifer y lleoliadau ym mhob un o'r wardiau uchod, nid oes newid i'r tirlun o ran y nifer uchaf o ddarparwyr gofal plant cofrestredig ers yr Asesiad llawn diwethaf ym mis Mawrth 2011.

- O ran nifer y llefydd gofal plant yn ôl y math o ddarparwr ym mhob ward, yn ward Uplands y ceir y nifer uchaf o lefydd gofal plant (n = 509), gyda Llansamlet (n = 407) a Sgeti (n = 388) yn dilyn.

DRAFT

- Ceir mwy o grynodiad o Ofal Dydd Llawn mewn ardaloedd penodol, gyda'r ddarpariaeth fwyaf yn ward Uplands, a Llansamlet a Gorseinon yn dilyn. Mae mwyafrif y llefydd gofal plant ar gael yn ward Llansamlet (n = 272), gyda ward Uplands (n = 246) a ward Treforys (n = 181) yn dilyn. Nid oes darpariaeth Gofal Dydd Llawn mewn 18 o wardiau.

- Ceir y nifer uchaf o Warchodwyr Plant, ac felly o lefydd gofal plant a gynigir, yn ardal Llansamlet (n = 95), gyda Threforys (n = 72) a Sgeti (n = 55) yn dilyn. Er y gellid dweud bod y cyflenwad yn brin, gydag uchafswm o 1 neu 2 warchodwr plant yn gweithio mewn 12 o wardiau, dim ond mewn 4 ward yn Abertawe (Castell, Penllergaer, Pennard ac Uplands) y ceir sefyllfa lle nad oes dim gwarchodwyr plant cofrestredig yn gweithio.

- Ceir y nifer uchaf o lefydd gofal sesiynol yn ward Townhill (sy'n cwmpasu Mayhill a Townhill) (n = 93), gyda ward Penderi (n = 90) a ward West Cross (n = 68) yn dilyn.

- Mae ein harolwg ciplun yn awgrymu bod 72 o ysgolion yn cynnig brecwast am ddim fel rhan o fenter Llywodraeth Cymru, ac mae 2 yn cynnal clybiau brecwast sydd wedi'u cofrestru gydag AGGCC. Mae naw deg pump y cant o ysgolion cynradd Abertawe yn cychwyn eu clybiau brecwast rhwng 8 ac 8.30a.m. Mae'r estyniad hwn yn amserau agor y bore i'r disgyblion yn caniatáu peth hyblygrwydd yn eu horiau gwaith i rieni sy'n gweithio.

- Mae 28 o gynlluniau Gofal ar ôl Ysgol wedi'u cofrestru gydag AGGCC yn Abertawe, ynghyd â 24 o gynlluniau sydd heb eu cofrestru, sydd i gyd yn gweithredu o safleoedd ysgol, fel bod rhieni'n gallu hawlio elfen gofal plant Credydau Treth Gweithio. Hefyd yn gynwysedig mae darpariaeth heb ei chofrestru ar gyfer plant/pobl ifanc 11 oed a throsodd (Gofal Ieuenctid). Mae'r nifer uchaf o enghreifftiau o ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol yn gweithredu o ward Uplands (n = 133), gyda ward Penderi (n = 112) a West Cross (n = 80) yn dilyn.

- Mae 17 o glybiau gwyliau wedi'u gwasgaru ar draws 15 o wardiau etholiadol yn Abertawe. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau heb eu cofrestru, h.y., clybiau sy'n weithredol ar gyfer plant 8-11 oed, ynghyd â 'Gofal Ieuenctid', sy'n draddodiadol yn gweithredu ar gyfer pobl ifanc 11 oed a throsodd. Mae Canolfannau Hamdden hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gofal yn ystod pob cyfnod gwyliau.

- O ran amserau agor, mae mwyafrif y lleoliadau **Gofal Dydd Llawn** yn cynnig eu gwasanaethau rhwng 7:30 a 21:00 ddydd Llun i ddydd Gwener, gyda 2 leoliad Gofal Dydd Llawn yn agor ar ddydd Sadwrn.

- Mae **Gwarchodwyr Plant** yn agor am 7.30am neu cyn hynny, ac yn aros ar agor tan 8.00pm, gyda 4 ohonynt yn cynnig gofal ar y penwythnos, ac 1 yn cynnig gofal dros nos.

- Ac eithrio pob darpariaeth Dechrau'n Deg, sydd ar agor 5 niwrnod yr wythnos, mae

DRAFT

7 cyfleuster **Gofal sesiynol** ychwanegol ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor. Fodd bynnag, mae nifer y llefydd gofal plant yn gostwng i 14 yn ystod cyfnodau gwyliau.

- Mae 95% o Glybiau Brecwast Llywodraeth Cymru yn Abertawe yn cychwyn rhwng 8 ac 8.30am.

- Mae'r holl glybiau ar ôl ysgol yn parhau i weithredu yn ystod y tymor yn unig, gyda'r amserau gorffen yn amrywio o 16:50 i 18:30.

- Mae cyfran helaeth o'r Ddarpariaeth Gofal yn ystod y Gwyliau yn weithredol rhwng 9:00 a 17:00, ond nid yw pob lleoliad yn cynnig y gwasanaeth yn ystod pob gwyliau ysgol. Yn ystod cyfnod gwyliau'r haf, mae'r mwyafrif o ddarparwyr yn gweithredu ar gyfartaledd am 4 wythnos o'r 6 sydd ar gael.

- Mae mwyafrif ysgolion cynradd Abertawe yn rhan o gynllun Brecwast am Ddim Llywodraeth Cymru, ac mae bron yr holl ddisgyblion ar y gofrestr yn cael cyfle i dderbyn brecwast am ddim. Mae clybiau brecwast yn darparu gofal plant am hyd at 1 awr cyn dechrau'r diwrnod ysgol.

- Dangosodd ciplun llefydd gwag a luniwyd yn ystod mis Tachwedd 2013 fod llefydd gwag ar gael mewn 16 o'r 36 ward ar draws Abertawe yn achos y ddarpariaeth Gofal Dydd Llawn, mewn 26 o wardiau yn achos Gwarchodwyr Plant, mewn 12 yn achos Gofal Sesiynol ac mewn 28 yn achos Gofal y tu allan i'r Ysgol.

- Cefnogir y ddarpariaeth gofal plant cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn Abertawe trwy grwpiau sy'n gysylltiedig â'r Mudiad Meithrin. Mae'r rhain yn cynnwys 2 Gylch Meithrin cofrestredig, sy'n cynnig 32 o lefydd gofal plant, yn gweithredu yn wardiau Mynyddbach a Gorseinon, 2 leoliad penodol Dechrau'n Deg Cyfrwng Cymraeg yn wardiau Penderi a Threforys, a meithrinfa ddydd breifat gofrestredig sy'n gysylltiedig â'r Mudiad Meithrin yn Uplands.

- Er nad yw'n cyfateb i'n cylch gorchwyl o archwilio'r ddarpariaeth gofrestredig, mae 7 grŵp gofal plant heb eu cofrestru sy'n gysylltiedig â'r Mudiad Meithrin (mae'r mwyafrif ohonynt yn y broses o gofrestru), a rhyngddynt mae'r rhain yn darparu 96 o lefydd gofal plant yn Abertawe.

- Mae 25 o ddarparwyr Cymraeg, Cymraeg/Saesneg neu ddwyieithog o blith 243 o ddarparwyr posibl y mae gennym yr wybodaeth hon yn eu cylch (felly mae'n bosibl bod mwy, gan fod cyfanswm o 249 o ddarparwyr wedi cofrestru gydag AGGCC yn Abertawe). Ar sail y data sydd gennym, mae 3% yn cynnig darpariaeth Gymraeg, a 7% yn cynnig darpariaeth ddwyieithog.

- Mae cost gofal plant yn amrywio ar draws darparwyr ac yn dibynnu ar oedran y plentyn, nifer y diwrnodau o ofal y mae eu hangen, nifer yr oriau o ofal y mae eu hangen bob dydd, a hyd y cyfnod pan fo angen gofal.

DRAFT

- Ymhlith y materion allweddol i ddarparwyr gofal plant mae hyfforddiant, cynnal y ddarpariaeth, rhwydweithio, llefydd am ddim i blant tair oed, taliadau hwyr, costau a rhent yr adeilad, talu'r staff, recriwtio staff a gwella ansawdd.

- O ran cynlluniau darparwyr at y dyfodol, y nod yw cynyddu'r ffïoedd, cynyddu argaeledd y Gymraeg, cynyddu nifer y llefydd, adnewyddu a gwella'r ddarpariaeth i'r anabl.

4. Dadansoddiad o'r Bylchau

Bylchau Daearyddol a Math

4.1 Mae'r bylchau daearyddol yn canolbwyntio ar ardaloedd daearyddol lle ceir bylchau penodol yn y ddarpariaeth. Fodd bynnag, dylai unrhyw fylchau daearyddol posibl yn y cyflenwad roi ystyriaeth i'r galw gan rieni a'u dewisiadau yn ogystal.

4.2 Mae bylchau math yn dangos ble ceir prinder o'r math o ofal plant y gall rhieni / / gofalwyr fod yn ei ffafrio, a gallant hefyd ymdrin ag unrhyw faterion posibl sy'n ymwneud â hyblygrwydd.

4.3 O ystyried y posibilrwydd o orgyffwrdd rhwng y ddau gategori hyn o fylchau, byddant yn derbyn sylw ar y cyd yn yr adran hon.

4.4 Er nad yw rhai wardiau'n darparu Gofal Dydd Llawn, Gwarchod Plant na Gofal Sesiynol, mae ein dadansoddiad yn dangos, lle bo'r lleoliadau hyn yn bodoli, bod nifer o lefydd gwag. Ar ben hynny, gall darparwyr gofal plant ddewis lleoli eu hunain mewn ardaloedd lle ceir y galw mwyaf. Nid yw ein harolwg rhieni/gofalwyr yn awgrymu bod angen darpariaeth ychwanegol yn yr ardaloedd hyn. Soniodd llawer o rieni am anawsterau cael hyd i ofal yn ystod gwyliau'r ysgol, a'i bod hi'n anodd cadw cydbwysedd rhwng gwaith a gofal plant, yn enwedig pan fyddant hwy (a'u partneriaid lle bo hynny'n berthnasol) yn gweithio'n llawn amser. Ymhellach, datgelodd trafodaeth gyda rhieni oedd â sawl plentyn yr hoffent weld mwy o ddarpariaeth ar ôl Ysgol ar gyfer eu plant hŷn.

4.5 Ymddengys bod diffyg cyfatebiaeth rhwng yr wybodaeth mae rhieni sy'n gweithio a chyflogwyr yn ei darparu ynghylch materion yn ymwneud â gofal plant.

4.6 **Darpariaeth Gymraeg/Ddwyieithog:** Roedd 52% o'r rhieni oedd yn siarad Cymraeg yn anghytuno â'r gosodiad "Mae digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg yn Abertawe". Dangosodd ein dadansoddiad hefyd mai 3% o'r darparwyr gofal plant cofrestredig sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg, gyda 7% yn cynnig darpariaeth ddwyieithog. Ymddengys felly fod y ddarpariaeth Gymraeg ei chyfrwng yn Abertawe yn fylchog, ac ategir hyn gan ein hymgynghori â'r Mudiad Meithrin a'r Fenter Iaith, er nad gan ein harolwg rhieni.

4.7 **Y Gymuned Teithwyr:** Datgelodd ein grwpiau ffocws gyda'r gymuned teithwyr fod y

rhieni/gofalwyr hyn yn teimlo y byddent yn elwa o wasanaeth cofleidiol un neu ddau ddiwrnod yr wythnos. Roeddent hefyd yn adrodd bod cludiant yn aml yn rhwystr iddynt wrth ollwng eu plant yn yr ysgol a'u casglu oddi yno.

Bylchau Incwm

4.8 Bydd yr adran hon yn canolbwyntio ar feysydd lle ceir prinder gofal plant fforddiadwy.

- Roedd 25% o'r ymatebwyr oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol yn hawlio Credydau Treth Plant.
- Ni allai rhieni oedd â mwy nag un plentyn fforddio cost gofal plant bob amser.
- Dywedodd 34% o'r darparwyr gofal plant eu bod o reidrwydd yn bwriadu codi eu ffioedd yn ystod y 12 mis nesaf.
- Datgelodd rhieni/gofalwyr plant a phobl ifanc ag anableddau y gall cost gofal plant iddyn nhw fod yn ddrutach, er enghraifft, wrth dalu am ofal un i un. Ar ben hynny, gall rhieni plant anabl fod o dan anfantais economaidd yn sgîl polisi taliadau cadw am ddefnyddio gofal plant yn ystod cyfnodau o salwch, apwyntiadau meddygol, ffisiotherapi, iaith a lleferydd ac ati.

Bylchau anghenion penodol

4.9 Cynhelir dadansoddiad o'r bylchau anghenion penodol er mwyn canfod a oes diffyg llefydd addas ar gyfer plant anabl, neu blant ag anghenion neu ofynion eraill penodol, gan gynnwys rhai sy'n dod o grwpiau ffydd neu gymunedol arbennig.

4.10 **Plant a phobl ifanc anabl:** Mynegodd rhieni a gofalwyr bryder ynghylch cyllid ar gyfer y ddarpariaeth gofal plant i blant a phobl ifanc ag anableddau. Mae pryder hefyd ynghylch costau cynyddol gofal plant i blant anabl os bydd angen gofal un i un arnynt, ac mae anghysondeb canfyddedig rhwng yr wybodaeth a roddir gan ddarparwyr, ac adroddiadau rhieni, o ran mynediad i'r ddarpariaeth.

4.11 **Teuluoedd du ac o leiafrifoedd ethnig (BME):** Y prif faterion oedd fel petaent yn codi o grwpiau ffocws y gymuned BME oedd cost a fforddiadwyedd, ynghyd â methu â chyrchu cymorth ariannol oherwydd statws fisa.

4.12 **Unig Rieni:** Gall unig rieni fod o dan anfantais ariannol yn sgîl un incwm, ac o bosib ddibyniaeth ar fudd-daliadau lles. Fodd bynnag, mae pecynnau o gefnogaeth ar gael i unig rieni sy'n cyrchu gofal plant. Er enghraifft, dywedodd 12% eu bod yn derbyn cymorth ychwanegol tuag at gostau gofal plant, gan gynnwys grant gofal plant, cyllid cronfeydd ariannol wrth gefn (FCF) gan Goleg Gŵyr, a chymorth gyda gofal plant wrth wneud gwaith gwirfoddol.

Bylchau Amser

4.13 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar a oes prinder gofal plant ar adeg pryd y byddai rhieni'n dymuno ei ddefnyddio.

DRAFT

- Mae rhieni wedi awgrymu nad yw gofal plant bob amser ar gael ar yr adegau priodol.
- Ar sail trafodaethau gyda rhieni, ymddengys y gallai fod prinder gofal plant gyda'r hwyr, pryd y gallai rhieni ddymuno mynd i ddosbarthiadau nos, neu maent wedi'u cyfyngu i oriau gwaith rhan amser sy'n pennu gwaith gyda'r hwyr ac ar y penwythnos yn unig.
- Datgelodd rhieni hefyd y byddent yn hoffi gweld y ddarpariaeth yn cychwyn yn gynt ac yn gorffen yn hwyrach o amgylch amserau'r ysgol.

Bylchau Oedran

4.14 Mae'r adran hon yn edrych i weld a oes prinder gofal plant addas ar gyfer anghenion a gofynion grŵp oedran penodol.

- Mae rhai rhieni'n cael anhawster dod o hyd i ofal priodol ar gyfer eu plant 11+. Ategwyd hyn gan ein harolwg rhieni/gofalwyr, lle nododd rhai rhieni nad oeddent yn teimlo bod digon o ofal plant ar gyfer plant 11-14 oed.
- Mae 17 o leoliadau darpariaeth gofal yn ystod y gwyliau ar draws 15 ward, ac mae nifer o'r rhain ar gyfer plant 5-10 oed yn unig. Mae 537 o lefydd mewn **Clybiau Gwyliau** ar gyfer plant 5-10 oed yn ystod cyfnod y gwyliau, o'i gymharu â 193 o lefydd yn unig ar gyfer plant 11+. Ymddengys, felly, fod y ddarpariaeth ar gyfer plant 11-14 oed yn fylchog, ac mae rhieni/gofalwyr yn sôn am gael trafferth dod o hyd i ofal plant priodol ar gyfer eu plant yn y grŵp oedran hwn.
- Ceir darlun tebyg yn achos plant 0-4 oed, gyda 773 o lefydd Gofal Sesiynol ar gael yn ystod y tymor, ond 14 yn unig ar gael yn ystod y gwyliau.

5 Ymgynghori ar y Canfyddiadau Cychwynnol

5.1 Ar ôl yr ymgynghori, bydd cynllun gweithredu ffurfiol yn cael ei ddatblygu. Cynhelir y broses ymgynghori am bythefnos o ddydd Iau 13eg Mawrth 2014. Wedi hynny, ymdrinnir ag unrhyw addasiadau sylweddol, a datblygir cynllun gweithredu, cyn anfon yr asesiad digonolrwydd gofal plant gorffenedig ymlaen i Lywodraeth Cymru erbyn 30ain Ebrill 2014.

DRAFT